Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

## Y cefndir

### Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**1.** Ar 29 Tachwedd 2022 gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ("y Memorandwm") ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol gerbron y Senedd. Gan fod nifer o welliannau wedi'u gwneud i'r Bil yn y Cyfnod Pwyllgor, dilynodd Llywodraeth Cymru hyn gyda Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ("y Memorandwm Atodol") ar 3 Ionawr 2023. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gyda dyddiad cau ar gyfer adrodd o 9 Mawrth 2023.

### Gwybodaeth am y Bil

**2.** Cafodd y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol ("y Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Medi 2022. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Cafodd y Bil ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Chwefror 2022.

**3.** Yn Ail Ddarlleniad y Bil gwnaeth Suella Braverman AS, yr Ysgrifennydd Cartref, ddweud wrth Dŷ'r Cyffredin y byddai'r Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol yn mynd i'r afael i raddau pellach, hyd yn oed ar

gleptocratiaid, troseddwyr a therfysgwyr, gan gryfhau enw da'r DU fel man lle gall busnes cyfreithlon ffynnu ond nid trosedd economaidd. At hynny, dywedodd fod trosedd economaidd yn broblem ddifrifol a'i bod yn bygwth ein ffyniant, ein diogelwch cenedlaethol a'n dylanwad byd-eang. Yn ôl Suella Braverman, mae economi'r DU yn un o economïau pennaf a mwyaf agored y byd, ac mae'n lle hynod ddeniadol i wneud busnes. Dywedodd yn ogystal fod hynny'n beth da, ond mae hefyd yn ein gwneud yn agored i droseddau economaidd megis gwyngalchu arian, llygredigaeth, ariannu troseddau trefniadol a therfysgaeth, ac ystod gynyddol o fygythiadau gan y wladwriaeth.

**4.** Diben y Bil yw'r cyflawni'r canlynol:

- Diwygiadau i Dŷ'r Cwmnïau;
- diwygiadau i atal cam-drin partneriaethau cyfyngedig;
- pwerau ychwanegol i atafaelu ac adennill cryptoasedau yr amheuir eu bod yn droseddol;
- diwygiadau gyda'r nod o roi mwy o hyder i fusnesau rannu gwybodaeth er mwyn mynd i'r afael â gwyngalchu arian a throseddau economaidd eraill; a hefyd
- pwerau casglu gwybodaeth newydd ar gyfer gorfodi'r gyfraith a chael gwared ar feichiau ar fusnesau.

**5.** Roedd y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn cynnwys 162 o adrannau ac 8 Atodlen. Ar y pryd, rhannwyd y Bil yn chwe rhan:

- Rhan 1 (cwmnïau, ac ati);
- Rhan 2 (partneriaethau cyfyngedig, ac ati);
- Rhan 3 (cofrestru endidau tramor);
- Rhan 4 (cryptoasedau);
- Rhan 5 (amrywiol); a
- Rhan 6 (cyffredinol).

**6.** Yn dilyn gwelliant, mae'r Bil wedi'i ymestyn i gynnwys 189 o adrannau a 9 Atodlen. Mae Rhan 2 bellach yn ymwneud â phartneriaethau ac yn gwneud darpariaeth ar wahân o ran partneriaethau cyfyngedig (Pennod 1 o Ran 2) a darpariaeth amrywiol ynghylch partneriaethau (Pennod 2 o Ran 2).

## Diffiniad o gryptoasedau

**7.** Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarpariaethau'r Bil ynghylch cryptoasedau. Mae taflen ffeithiau Llywodraeth y DU ar gryptoasedau yn esbonio eu bod yn storfa o werth y gellir ei throsglwyddo neu ei chyfnewid yn ddigidol. Aiff ymlaen i roi enghreifftiau o gryptoasedau gan nodi mai Bitcoin – a grëwyd yn 2008 – oedd yr arian cyfred digidol cyntaf, ac mai hwnnw'n dal i fod y cryptoased pennaf mwyaf dylanwadol ac adnabyddus o bell ffordd. Fodd bynnag mae cryptoasedau wedi ehangu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chyflwyno dosbarthiadau newydd o asedau. Er enghraifft, mae tocynnau anghyfnewidiadwy ("*non-fungible tokens*" neu "*NF*Ts") yn docynnau digidol all gynrychioli eitem unigryw, er enghraifft gwaith celf.

**8.** Yn ôl y daflen ffeithiau, ym mis Mehefin 2022 amcangyfrifwyd bod gan yr arian cyfred crypto amrywiol sydd ar gynnig (dros 20,000) werth cyfunol o $929.51 biliwn. Ar ei anterth ym mis Tachwedd 2021, roedd cap y farchnad cryptoasedau yn agos at $3 triliwn.

# Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**9.** O dan Reol Sefydlog 29, rhaid i Weinidogion Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol os yw Bil y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:

i. At unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu

ii. sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**10.** Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl, ac felly, maent y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn benodol, mae Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cadw'r materion canlynol yn ôl:

- O dan y pennawd C1 (cymdeithasau busnes ac enwau busnesau) paragraff 65 (creu, gweithredu, rheoleiddio a diddymu mathau o gymdeithasau busnes):
- O dan y pennawd B5 (troseddau, trefn gyhoeddus a phlismona) paragraff 39 (atal, canfod ac ymchwilio i droseddau):
- O dan y pennawd L1 (y proffesiwn cyfreithiol, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau rheoli hawliadau) paragraff 164 (y proffesiwn cyfreithiol a gwasanaethau cyfreithiol):

**11.** Mae darpariaethau'r Bil sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd o dan y darpariaethau a geir yn Rheol Sefydlog 29 wedi'u crynhoi isod.

### Rhan 4: Cryptoasedau

**12.** Mae cymal 141 (166, bellach) yn cyflwyno Atodlen 6, sy'n diwygio Deddf Enillion Troseddau 2002 (neu "*POCA*") i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chryptoasedau a gorchmynion atafaelu.

**13.** Mae darpariaethau Atodlen 6 wedi'u cynllunio i wella cyflwr yr economi yn y DU (gan gynnwys Cymru) drwy frwydro yn erbyn troseddau economaidd drwy wneud darpariaeth ar gyfer atafaelu, gwireddu a dinistrio cryptoasedau.

**14.** Mae Rhan 1 (Paragraffau 1-18) o Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru a Lloegr.

**15.** Mae paragraff 1 yn darparu bod Rhan 1 o Atodlen 6 i'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 (atafaelu: Cymru a Lloegr).

**16.** Gwneir darpariaeth i gefnogi atafaelu cryptoasedau gan swyddogion priodol ("*appropriate officers*"). Gall swyddog priodol atafaelu unrhyw eiddo rhydd os oes ganddo sail resymol i amau bod eiddo o'r fath yn eitem sy'n ymwneud â chryptoased. Mae'r diffiniad o swyddog priodol yn cynnwys

ymchwilydd ariannol achrededig o ddisgrifiad a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru (o dan adran 453 o'r Ddeddf Enillion Troseddau).

**17.** Cadw a rhyddhau eiddo – Mae Rhan 1 o Atodlen 6 yn diwygio darpariaethau cadw eiddo yn (Adrannau 47K a 47L o) y Ddeddf Enillion Troseddau i gynnwys darpariaeth ar gyfer cadw eitemau sy'n ymwneud â chryptoasedau. Mae hyn yn darparu ar gyfer cadw ymhellach eitemau cysylltiedig â chryptoasedau sy'n eiddo eithriedig, tra'n aros am greu gorchymyn atal neu amrywio gorchymyn o'r fath. Mae eiddo eithriedig ("*exempt property*") yn eiddo angenrheidiol naill ai: Ar gyfer deiliad cyflogaeth, busnes neu alwedigaeth yr eiddo; neu er mwyn bodloni anghenion domestig sylfaenol y deiliad, neu deulu'r deiliad. Rhaid i achosion pellach o gadw gael eu hawdurdodi gan uwch-swyddog ("*senior officer*"). Mae hyn yn cynnwys ymchwilydd ariannol achrededig o ddisgrifiad a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru (o dan adran 453 o'r Ddeddf Enillion Troseddau).

**18.** Eiddo a ddelir gan bersonau sy'n destun gorchmynion atafaelu: dinistrio, gwireddu ac ati – gwneir darpariaeth ynghylch pwerau'r llys i orfodi gorchmynion atafaelu. Mae'r darpariaethau'n mynd i'r afael â phwerau'r llys i orchymyn gwireddu (neu ddinistrio) cryptoasedau a thalu i'r llys. At hynny, maent yn gwneud darpariaeth gysylltiedig mewn perthynas â derbynyddiaethau gorfodi, a gorfodi mewn perthynas ag arian a ddelir mewn cyfrifon a gynhelir gyda sefydliadau arian electronig a sefydliadau talu.

**19.** Mae Atodlen 6 yn cynnwys darpariaeth sy'n addasu cymhwysedd gweithrediaeth Gweinidogion Cymru.

**20.** Mae cymal 142 (167, bellach) yn cyflwyno Atodlen 7, sy'n diwygi'r Ddeddf Enillion Troseddau i wneud darpariaeth ar gyfer cynllun adennill sifil mewn perthynas â chryptoasedau.

**Atodlen 7 (Cryptoasedau: Adennill sifil)**

**21.** Mae Rhan 1 o Atodlen 7 yn mewnosod Penodau 3C, 3D, 3E a 3F newydd yn Rhan 5 o'r Ddeddf Enillion Troseddau.

**22.** Mae Pennod 3C yn gwneud darpariaeth ar gyfer atafaelu ac adennill cryptoasedau. Mae pwerau chwilio ac atafaelu yn arferadwy gan swyddog

gorfodi (sy'n gweithredu gydag awdurdod barnwrol, neu hebddo, neu gymeradwyaeth uwch-swyddog).

**23.** Mae Pennod 3D yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhewi, a fforffedu, cryptoasedau a ddelir gan drydydd parti mewn cryptowaledi. Gellir gorfodi'r pwerau hyn gan swyddog gorfodi.

**24.** Mae Pennod 3E yn galluogi awdurdod barnwrol i orchymyn fforffedu rhai o'r cryptoasedau, neu'r cyfan, a gedwir o dan Bennod 3C neu sydd wedi'u rhewi o dan Bennod 3D o dan amgylchiadau penodol. At hynny, mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwireddu neu ddinistrio cryptoasedau. Mae'r achos a'r gorchymyn yn gofyn am gynnwys swyddog gorfodi a/neu uwch-swyddog.

**25.** Mae Pennod 3F yn galluogi trosi'n arian cryptoasedau sydd wedi'u cadw, yn unol â chais i lys perthnasol gan swyddog gorfodi, ynghylch y person yr atafaelwyd yr asedau oddi wrtho.

**26.** Mae Rhan 2 o Atodlen 7 yn gwneud diwygiadau i'r Ddeddf Enillion Troseddau yn dilyn ychwanegu Penodau 3C-3F newydd a ddisgrifir uchod.

# Y rhesymau dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil

**27.** Mae paragraff 11 o Femorandwm Llywodraeth Cymru yn esbonio pam mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil gynnwys darpariaeth ddatganoledig:

- "Mae'r Bil yn adeiladu ar y gwaith o amgylch Deddf Troseddau Economaidd (Tryloywder a Gorfodi) gychwynnol 2022, a gefnogir yn flaenorol gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad yn dilyn ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Bydd cynigion yn Rhan 4 o'r Bil yn mynd i'r afael â'r bygythiad cynyddol o gryptoasedau, sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol i hwyluso ymosodiadau meddalwedd wystlo a gwyngalchu arian. Bydd y Bil yn diwygio pwerau yn POCA i alluogi ymchwilio, atafaelu ac adfer cryptoasedau yn well mewn achosion atafaelu troseddol ac adfer sifil.

- Mae trafodaethau paratoadol gyda Llywodraeth y DU, ar lefel Weinidogol a swyddogol, a'r dadansoddi dilynol yn dangos bod y darpariaethau datganoledig dan sylw yn rhai technegol ac nad ydynt yn ddadleuol, ac felly mae'n briodol defnyddio'r Bil i wneud y ddarpariaeth hon yn hytrach na defnyddio Bil y Senedd.

- Mae'r darpariaethau datganoledig dan sylw yn ymwneud â meysydd polisi ehangach a gedwir yn ôl. O ran cydsyniad Llywodraeth Cymru, mae hyn yn bennaf yn ymwneud â'r pwerau i atafaelu cryptoasedau yn gyflym ac yn haws, sef y prif gyfrwng a ddefnyddir ar gyfer meddalwedd wystlo sy'n cyd-fynd â'n polisïau seiberddiogelwch.

- Byddai gwneud y darpariaethau hyn yn fanteisiol am resymau cyffredin i sicrhau bod Economi Cymru yn cefnogi mesurau'n gadarn ac yn amgylchedd annymunol ar gyfer gwyngalchu arian, seiberdroseddu economaidd  gweithgarwch anghyfreithlon cysylltiedig arall.

- Rydym wedi dangos i Dŷ'r Cwmnïau yn glir ein bod o blaid derbyn adnoddau priodol i weithredu'r newidiadau o amgylch ei gyfrifoldebau cynyddol o ganlyniad i weithredu'r Bil."

**28.** Darperir rhesymu tebyg ym mharagraffau 39-43 o'r Memorandwm Atodol ar gyfer y Bil fel y'i diwygiwyd.

# Goblygiadau ariannol

**29.** Yn ôl y Memorandwm, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u nodi wrth y cam hwn. Yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i fonitro cynnydd y Bil ac yn datgan y bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu dwyn i sylw'r Senedd, fel y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn briodol.

# Barn Llywodraeth Cymru

**30.** Fel y nodwyd yn y Memorandwm, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil wrth iddi adeiladu mesurau presennol gan Lywodraeth y DU – gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru – i gefnogi Wcráin a phobl Wcrain. At hynny, maent yn cefnogi safbwynt y Bil o ran

ymateb i weithgarwch anghyfreithlon ym meysydd gwyngalchu arian, cryptoasedau a newidiadau i reoliadau Tŷ'r Cwmnïau. O'r herwydd, maent yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

## Safbwynt y Pwyllgor

**31.** Mae'r Aelodau'n cytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 141 (cymal 166, bellach) a 142 (cymal 167, bellach) o'r Bil ac Atodlenni 6 a 7 iddo fel y'i cyflwynwyd. At hynny, mae'r Aelodau'n cytuno â haeriadau Llywodraeth Cymru a nodir uchod ynghylch y Bil hwn fel ffordd addas o wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru.

**32.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.